# Bwletin y Farchnad HCC

Mawrth 2023

**Yn dilyn cyhoeddi ystadegau trwybwn mis Chwefror gan Defra, mae *Bwletin y Farchnad* y mis hwn yn rhoi sylw i nifer yr Ŵyn Hen Dymor sy'n dod ar y farchnad a'r patrymau cyflenwad cig eidion y gellid eu gweld yn y dyfodol.**

**Glesni Phillips – Swyddog Gweithredol Deallusrwydd, Dadansoddi a Mewnwelediad Busnes**




## CIG OEN

Roedd yr adroddiad '*Rhwng y Llinellau*' diwethaf, a oedd yn canolbwyntio ar y sector cig oen, yn trafod sut roedd trwybwn yr ŵyn o blith y rhai diweddaraf i gael eu geni yn llai na'r disgwyl, ac felly byddai mwy nag arfer o ŵyn yn dod ar y farchnad yn ystod misoedd cyntaf 2003, am fod cynifer wedi cael eu cadw'n hwy nag arfer ar y fferm.

Mae data am ladd-dai gan Defra wedi dangos fod cyfanswm o **1.9 miliwn o ŵyn** wedi cael eu lladd yn y DG yn ystod deufis cyntaf 2023. Mae hyn yn **8% yn fwy** nag oedd flwyddyn yn gynharach, a 13% yn uwch nag yn y cyfnod cyfatebol yn 2021. Yn dilyn yr hyn roeddem wedi ei ragweld, mae'r ystadegau hyn yn awgrymu fod mwy o ŵyn nag arfer yr adeg hon o'r flwyddyn yn dod ar y farchnad. Wrth edrych ar cnwd oen leni, mae cyfanswm o 10.2 miliwn o ŵyn eu prosesu hyd yn hyn (Mai 2022 - Chwefror 2023). Er bod hyn yn 2% yn uwch na'r cyfnod cyfatebol y llynedd, mae'r niferoedd tua 7% yn is nag yn y blynyddoedd blaenorol.

Mae data gan y marchnadoedd da byw hefyd yn cadarnahu'r duedd hon. Yng Nghymru, mae bron i 182,000 o Ŵyn Hen Dymor (OSL) wedi bod drwy'r farchnad hyd yma yn 2023 – sef **7% yn fwy** nag yn y cyfnod cyfatebol y llynedd (*data hyd at yr wythnos yn diweddu 25 Mawrth 2023, categori SQQ*).

Mae'n anodd rhagweld faint o ŵyn sydd ar ôl i'w prosesu o'r cnwd ŵyn cyfredol, ond mae ystadegau'n awgrymu y gwelwn fwy o ŵyn nag arfer ym mis Mawrth hefyd.




## CIG EIDION

Yn ystod deufis cyntaf 2023, roedd cyfanswm y trwybwn gwartheg yn 445,100, sef **4% yn uwch** nag yn 2022, ond yn debyg i 2021, yn ôl ystadegau diweddaraf Defra. Er bod yna fwy o anifeiliaid, dim ond 1% yn fwy o gig na'r flwyddyn flaenorol a gynhyrchwyd – am fod y carcasau'n ysgafnach. Mae trwybwn y gwartheg dethol ar gyfer y flwyddyn hyd yma wedi cynyddu 3% i 318,900, gyda niferoedd yr heffrod – fel y llynedd – yn bennaf gyfrifol am y cynnydd hwn.





Mae trwybwn y gwartheg llawn dwf yn 6% yn uwch nag oedd yn y cyfnod cyfatebol y llynedd, o edrych ar fisoedd Ionawr a Chwefror gyda'i gilydd. Mae carcasau'r gwartheg hyn hefyd wedi bod yn ysgafnach, sef tua 6kg yr anifail ar gyfartaledd. Mae hyn yn awgrymu y gallai'r cyfuniad o brisiau da i'r ffermwr a chostau mewnbwn uwch wedi dylanwadu ar benderfyniadau cynhyrchwyr i farchnata anifeiliaid hŷn a llai cynhyrchiol.

Wrth edrych i'r dyfodol ar y cyflenwad posibl o wartheg ym Mhrydain, mae'r data am nifer y gwartheg gan Wasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS) yn dangos bod **3% yn fwy** o anifeiliaid (gwartheg cig eidion a gwartheg llaeth gwryw 12-30 mis oed) ar y ffermydd ar 1 Ionawr 2023 nag oedd yn y cyfnod cyfatebol yn 2022. Mae hyn yn awgrymu y bydd y cyflenwad yn y **tymor byr/canolig** yn fwy nag oedd yn y flwyddyn flaenorol. O edrych ar y cyflenwad posibl o gig eidion o'r radd flaenaf ym Mhrydain yn yr **hirdymor** (h.y. gwartheg cig eidion a gwartheg llaeth gwryw 0–12 mis oed) mae'r darlun ychydig yn wahanol. Mae ystadegau BCMS yn dangos **gostyngiad o 1%** yn nifer yr anifeiliaid. Mae hyn yn awgrymu y gallai llai o wartheg dethol gyrraedd y farchnad yn y dyfodol – yn enwedig o gofio ein bod yn gweld gostyngiad ym maint y fuches fagu.

RHWNG Y LLINELLAU
BETWEEN THE LINES

I ddysgu mwy am y cyflenwad o wartheg y gellid ei ddisgwyl yn y dyfodol, cadwch lygad am ein hadroddiad newydd '*Rhwng y Llinellau*' **yma**



# Crynodeb Misol y Farchnad

## GWARTHEG

### Prisiau – wythnos yn diweddu 25 Mawrth

Y pris cyfartalog am wartheg dethol mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru a Lloegr oedd **247.9c/kg**. Roedd hyn:

- + 3.3c ar yr wythnos flaenorol,
- + 38.0c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 77.8c yn uwch na'r cyfartaledd 5-mlynedd (cyfartaledd 2018-22: 195.1c/kg).

Y pris pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych oedd **485.2c/kg**. Roedd hyn:

- + 1.9c ar yr wythnos flaenorol,
- 69.0c uwchlaw lefelau blwyddyn yn gynharach.

Roedd y pris pwysau marw am heffrod yn 483.0c/kg (+3.4c ar yr wythnos), teirw ifanc ar 464.1c/kg (-1.9c), a gwartheg difa ar 380.4c/kg (-0.1c).

### Trwybwn – Chwefror 2023

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 217,900 pen – 1% yn llai na'r flwyddyn flaenorol
- Cyfanswm y trwybwn gwartheg dethol = 157,400 pen – 1% yn llai na'r flwyddyn flaenorol
  - ➢ *bustych -2%, heffrod +1%, a theirw ifainc -9%.*
- Pwysau cyfartalog carcasau gwartheg dethol = 343.0kg (-7.8kg ar y flwyddyn)
- Trwybwn gwartheg llawn-dwf = 54,500 pen – cynnydd o 5% ar y flwyddyn.

## DEFAID

### Prisiau – wythnos yn diweddu 25 Mawrth

Pwysau byw cyfartalog ŵyn dethol SQQ mewn marchnadoedd arwerthu yng Nghymru oedd **259.6c/kg**. Roedd hyn:

- + 8.7c ar yr wythnos flaenorol
- + 1.3c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 13.6c yn uwch na'r cyfartaledd 5-mlynedd (cyfartaledd 2018-22: 245.9c/kg).

Prisiau mamogiaid difa cyfartalog mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru oedd **£72.90/pen**. Roedd hyn:

- - £4.80 ar yr wythnos flaenorol
- £20.80 yn is na'r flwyddyn flaenorol.

Prisiau ŵyn pwysau marw Prydain Fawr ar gyfartaledd oedd 548.2c/kg (+25.7c ar yr wythnos).

### Trwybwn – Chwefror 2023

- Cyfanswm y trwybwn defaid mewn lladd-dai yn y DU = 1.1 miliwn pen – cynnydd o 11% ar y flwyddyn.
- Trwybwn ŵyn = 969,700 pen - 12% yn fwy na'r flwyddyn flaenorol.
- Pwysau carcasau ŵyn ar gyfartaledd = 20.0kg (-0.9kg ar y flwyddyn)
- Trwybwn mamogiaid a hyrddod difa = 99,300 pen – cynnydd o 4% ar y flwyddyn.

## MOCH

### Prisiau – yr wythnos yn diweddu 18 Mawrth

Roedd Pris Mochyn Cyfan Manyleb yr UE (APP) ym Mhrydain Fawr yn **215.2c/kg**. Roedd hyn:

- + 1.0c ar yr wythnos flaenorol
- + 70.5c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 66.2c yn uwch na'r cyfartaledd 5-mlynedd (cyfartaledd 2018-22: 149.0c/kg)

### Trwybwn – Chwefror 2023

- Cyfanswm y trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU = 777,100 pen – gostyngiad o 17% ar y flwyddyn.
- Trwybwn moch heb fagu = 762,000 pen – i lawr 17% ar y flwyddyn.
- Pwysau cyfartalog carcasau moch heb fagu = 88.9kg (-5.0kg ar y flwyddyn)
- Trwybwn hwch a baedd = 16,200 pen – 31% yn llai na'r flwyddyn flaenorol.

